Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru – Y Môr a Physgodfeydd

## Amodau Trwydded ar gyfer Pysgota Hamdden y Gogledd Is-ddeddf 30

**Caiff y Drwydded hon ei rhoi o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru, at ddibenion Is-ddeddf 30 cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ("NWNWSFC").**

Mae Is-ddeddf 30 cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru bellach yn effeithiol fel pe bai wedi ei gwneud mewn offeryn statudol gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Erthygl 13(1) o Orchymyn Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (p.42)) ac Atodlen 3 iddi.

Mae gan Deiliad y Drwydded hawl i bysgota am **gimychiaid, cimychiaid coch, crancod, corgimychiaid a chregyn moch**, yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir yn Rhannau A a B isod.

### Rhan A – Ardal lle caniateir pysgota:

Mae'r Drwydded yn berthnasol i'r rhan honno o Ddyfroedd Cymru sydd o fewn y terfyn pysgota o 6 milltir môr i'r gogledd-ddwyrain o linell a dynnir i'r gogledd-orllewin cywir o eithafoedd Pen Cemaes yn Sir Ceredigion.

### Rhan B – Amodau:

1. Mae'r Awdurdodiad hwn yn ddilys am y cyfnod a nodir ar hysbysiad y drwydded.

2. Nid oes modd trosglwyddo'r Drwydded.

3. Ni chaiff Deiliad y Drwydded ddefnyddio mwy na 5 potyn neu drap.

4. Ni all Deiliad y Drwydded ond gymryd neu fachu'r rhywogaethau a'r niferoedd a ragnodir yn Is-ddeddf 30 (1).

5. Mae'n rhaid i'r holl gyfarpar pysgota gael ei farcio'n glir â'r rhif trwydded a roddir.

6. Mae'n rhaid i Ddeiliad y Drwydded gydymffurfio â'r holl ofynion a'r cyfarwyddiadau rhesymol a bennir gan Swyddogion Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru.

7. **Terfynu**: Gall Gweinidogion Cymru derfynu'r Awdurdodiad ar unrhyw adeg, yn ôl eu disgresiwn. Caiff hysbysiad ei roi ymlaen llaw lle y bo'n bosibl. ond gallai'r Awdurdodiad gael ei derfynu heb rybudd o dan yr amgylchiadau canlynol:
    a) os bydd argyfwng, neu
    b) os byddwch yn torri unrhyw un o amodau'r Awdurdodiad.

8. **Dod i ben**: Daw'r Awdurdodiad i ben yn awtomatig os na chaiff ei therfynu cyn y dyddiad dod i ben.

**Noder:**

1. Caiff yr Awdurdodiad ei roi yn unol ag Is-ddeddf 30 cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ac nid yw ond yn berthnasol i'r Is-ddeddf honno.
2. Nid yw'r Awdurdodiad hwn yn golygu nad oes modd i chi gael eich erlyn o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall. Ni does ganddi unrhyw effaith o ran unrhyw ddarpariaeth neu ofyniad cyfreithiol arall ac ni fydd yn amddiffyn rhagddynt. Yn ogystal â darpariaethau statudol eraill, efallai y byddwch hefyd yn cyflawni trosedd os byddwch yn croesi tir preifat heb dderbyn ymlaen llaw ganiatâd yr holl dirfeddianwyr perthnasol (ac unrhyw gyrff eraill perthnasol).